

SL(6)326 – Rheoliadau'r Dreth Gyngor **(Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau** **Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2023**

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) (Diwygio) (Cymru) ("y Rheoliadau") yn diwygio Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) 1992 ("Rheoliadau Diystyriadau Disgownt") o ran Cymru.

Mae'r Rheoliadau'n diwygio'r Rheoliadau Diystyriadau Disgownt i sicrhau nad yw pobl o Wcráin sy'n symud ymlaen o fod yn preswyllo mewn llety o dan Gynllun Noddi Cartrefi i Wcráin Llywodraeth y DU, neu nad ydynt yn preswyllo gyda noddwr o dan y cynllun hwnnw yn parhau i gael eu diystyru at ddibenion disgownt mewn perthynas â'u hatebolrwydd treth gyngor eu hunain. Mae'r Rheoliadau'n diwygio Dosbarth H o'r Rheoliadau Diystyriadau Disgownt i ddarparu nad yw'r diystyriad presennol ond yn gymwys pan fo person sydd wedi cael caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi o dan Gynllun Cartrefi i Wcráin yn preswyllo gyda noddwr o dan y cynllun hwnnw.

Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru yn darparu bod y Rheoliadau Diystyriadau Disgownt yn cael eu diwygio i sicrhau triniaeth gyson a theg â gwladolion eraill o Wcráin sydd wedi sicrhau eu fisa gan naill ai Cynllun Teuluoedd o Wcráin neu Gynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin, ac i sicrhau triniaeth gyson mewn perthynas â ffoaduriaid o wledydd eraill.

Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol



Yn y rhaglith, enwir adran 116(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 fel pŵer galluogi. Fodd bynnag, ymddengys bod hyn yn anghywir gan nad yw adran 116(1) yn rhoi unrhyw bwerau a arferir gan Weinidogion Cymru wrth wneud y Rheoliadau hyn.

Mae adran 116(1) yn adran ddehongli gyffredinol sy'n cynnwys diffiniad o "prescribed" i olygu sy'n cael eu rhagnodi gan reoliadau. Fel arfer dim ond mewn troednodyn i gynorthwyo'r darllenydd y caiff y wybodaeth honno ei chynnwys, ac nid yw wedi'i dyfynnu yn y rhaglith – gweler SIP 3.11.15 i 3.11.17, a 3.11.22.

Felly, os caiff ei nodi yn y rhaglith, mae angen eglurhad pellach gan Lywodraeth Cymru.

Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Pwynt Craffu Technegol 1:

Mae'r canllaw Statutory Instrument Practice (5ed argraffiad) yn darparu bod y darpariaethau galluogi yn cynnwys "all of those that make clear: what may, or must, be done; by what means something is to be done; and who is empowered to do it." Mae adran 116(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn nodi mai ystyr "prescribed" yw wedi'i ragnodi gan reoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol (ac mae'r swyddogaeth wedi cael ei throsglwyddo i Weinidogion Cymru). Gellid bod wedi cynnwys yr wybodaeth hon mewn troednodyn, ond nid yw'r hyn a wneir yn effeithio ar ddilysrwydd nac effeithiolrwydd yr offeryn statudol.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 13 Mawrth 2023 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.

